CYD-BWYLLGOR CRAFFU DINAS-RANBARTH BAE ABERTAWE

(Via Microsoft Teams)

Aelodau sy'n Bresennol: **Dydd Mawrth, 2 Chwefror 2021**

Cadeirydd: **Cynghorydd R.James**

Cynghorwyr: A.Llewelyn, S.E.Freeguard, P.Downing, T.Baron, G.Morgan, D.Price a/ac J.Jones

Swyddogion sy'n Bresennol: S.Curran, C.Moore, R.Arnold, S Burford, J.Burnes a/ac A.Thomas

---

1. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cyn y cyfarfod dosbarthwyd dogfen i'r aelodau a oedd yn amlinellu trosolwg cyfredol o'r prosiect. Ni fwriadwyd trafod y ddogfen ond roedd ar gael i alluogi aelodau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r diweddariadau diweddaraf. Gofynnwyd i'r aelodau ddarllen y ddogfen os nad oeddent wedi gwneud hynny eisoes.

Pwysleisiodd y Cadeirydd siom yr aelodau na dderbyniwyd unrhyw ddogfennau ysgrifenedig i gyd-fynd â diweddariad prosiect Pentre Awel. Yn ogystal, wrth ystyried bod y prosiect yn lleol ac nid yn rhanbarthol, mae y tu allan i gwmpas y pwyllgor. Gohiriodd yr aelodau'r eitem er mwyn ei thrafod mewn cyfarfod yn y dyfodol gyda diweddariad ysgrifenedig i gyd-fynd ag ef.

Pwysleisiodd y Cadeirydd y pryder cyffredinol ynghylch y diffyg diweddariadau ysgrifenedig a ddarperir i'r pwyllgor. Disgwyliadau'r pwyllgor wrth symud ymlaen yw bod yn rhaid i wybodaeth ysgrifenedig gyd-fynd â phob eitem ar yr agenda. Bydd hyn yn sicrhau y gall y pwyllgor gyflawni ei swyddogaeth graffu'n briodol ac yn llawn.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Dim.

3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2020 fel cofnod gwir a chywir.

4. DIWEDDARIAD LLAFAR GAN IS-GANGHELLOR PRIFYSGOL ABERTAWE AR Y CAMPYSAU GWYDDOR BYWYD A LLES

Croesawodd y Cadeirydd yr Athro Steve Wilks i'r cyfarfod.

Aeth yr Athro Wilks ati i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am gyfraniad presennol Prifysgol Abertawe ym Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Mae'r Brifysgol yn ymwneud ag ychydig o'r prosiectau ar wahanol lefelau o gymhlethdod.

Trafododd yr Athro Wilks y prosiect Gwyddorau Bywyd a Lles, sydd â gwerth Bargen Ddinesig o £15m, a rhagwelir y bydd yn creu 1100 o swyddi ac yn ychwanegu £150m o werth ychwanegol gros erbyn 2031. Mae'n cwmpasu dau gam.

Yn sylfaenol, cam un yw cyllid y Fargen Ddinesig a fydd yn darparu cymorth i fuddsoddi yn safleoedd Ysbyty Treforys a Sketty Lane. Bydd cam un yn datgloi cam dau yn y bôn.

Mae cam un yn ymwneud â gwella triniaethau ac adferiad fel y gall pobl ddychwelyd i'w hamgylcheddau cartref yn gyflymach o lawer. Bydd y cam cyntaf yn cynnwys adnewyddu'r ganolfan reoli yn Ysbyty Treforys, gan gysylltu arloesedd clinigol a chyflwyno mynediad i'r safle yn Nhreforys. Bydd safle Sketty Lane yn cynnwys datblygu Canolfan Technoleg Gwyddor Chwaraeon a Lles. Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn awyddus i nodi partneriaid posib ar gyfer cydweithio.

Holodd yr aelodau am effaith COVID-19 ar sefyllfa ariannol y Brifysgol. Dywedodd yr Athro Wilks fod y Brifysgol mewn sefyllfa deg a chryf o safbwynt ariannol. Mae'r Brifysgol yn dal i fod yn gwbl ymrwymedig ac yn gallu cyflawni'r prosiectau y maent wedi ymrwymo iddynt. Ni fu unrhyw newid nac effaith ar ymrwymiad y Brifysgol i'r fargen yng ngoleuni'r pandemig.

O safbwynt prifysgol, cwestiynodd yr aelodau berthnasedd presennol y naw prosiect o fewn y Fargen Ddinesig. Yn benodol, cyfeiriodd yr aelodau at y prosiect Isadeiledd Digidol ac a fyddai gofyniad i ofynion ariannu'r dyfodol fwyafu'r prosiect. Gyda'r oes ddigidol yn symud yn gyflym ar hyn o bryd oherwydd y pwysau a achosir gan y pandemig, gofynnodd yr aelodau a fyddai'r prosiect yn dal i fod yn berthnasol. Roedd yr Athro Wilks yn hyderus y byddai'r prosiect yn cyrraedd ei nodau perthnasol.

Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ysgrifenedig am gysylltiad y Brifysgol â phrosiectau'r Fargen Ddinesig er mwyn ei roi i'r aelodau.

Diolchodd yr aelodau i'r Athro Wilks am ddod i'r cyfarfod.

5. YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AM BROSIECT PENTRE AWEL

Gohiriwyd yn unol â Chyhoeddiad y Cadeirydd.

6. DIWEDDARIAD LLAFAR AR GYLLID BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE

Rhoddodd swyddogion ddiweddariad llafar ar gyllid.

Mae'r llythyr dyfarnu cyllid ar gyfer yr ail gyfran o gyllid o £18m wedi'i dderbyn a'i gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor. Roedd yn cynnwys cyfle i ddefnyddio £18m ychwanegol yn amodol ar yr amodau a amlinellwyd yn y llythyr dyfarnu. Mae hyn bellach wedi'i gymeradwyo gan bob person perthnasol ac mae'r derbyniad wedi'i ddychwelyd i Lywodraeth Cymru. Disgwylir trydydd taliad hefyd cyn diwedd y flwyddyn ariannol, sy'n ymwneud ag arian parod y dylid ei dderbyn yn 2021.

Cadarnhawyd nad oes unrhyw gyllid o'r gyfran gyntaf wedi'i ddyrannu eto i brosiectau unigol. Roedd cytundebau ariannu'n cael eu drafftio ar hyn o bryd ac maent yn destun adolygiad cyfreithiol. Cadarnhawyd na ellir rhyddhau unrhyw gyllid nes bod y cytundebau ariannu perthnasol wedi'u llofnodi.

Cedwir yr arian yng Nghyngor Sir Gaerfyrddin. Dosberthir unrhyw log a gronnwyd rhwng y pedwar awdurdod sirol ar sail fformiwla y cytunwyd arni. Cadarnhaodd swyddogion eu bod yn cynnal trafodaethau cyson â Llywodraeth Cymru ac nid oes unrhyw risg i'r cyllid oherwydd unrhyw gyfyngiadau amser sydd ar waith.

Cadarnhaodd swyddogion, unwaith y bydd prosiect wedi'i gymeradwyo a bod y cytundeb ariannu perthnasol wedi'i gymeradwyo, y bydd yr arian yn cael ei ryddhau i'r prosiect. Yna bydd arian yn cael ei ryddhau i'r prosiect yn awtomatig ar sail blynyddol, yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn rhyddhau eu cyfran o'r cyllid.

Cydnabuwyd bod nifer y prosiectau o fewn y fargen wedi newid o un ar ddeg i naw. Fodd bynnag, cadarnhaodd swyddogion nad oedd y £241m gwreiddiol a ddyrannwyd i'r fargen wedi gostwng, a'i fod yn cael ei addasu i ymgorffori'r newidiadau.

Cadarnhaodd swyddogion fod y cytundebau ariannu wedi'u drafftio i gynnwys elfen o atebolrwydd ynddynt, fel na chollir allbynnau pob prosiect dros y 15 mlynedd. Mae arweinwyr y prosiect yn gyfrifol am sicrhau bod yr allbynnau'n cyd-fynd â'r cynllun busnes, oni bai fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar newid. Mae dull adfachu ar waith ar bortffolio'r prosiect yn ei gyfanrwydd ond dewis olaf yw hwn.

Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am yr wybodaeth ddiweddaraf.

7. MONITRO'R RHAGLEN

Cyflwynodd Jonathan Burnes, Cyfarwyddwr Swyddfa Rheoli'r Portffolio (CSRhP), drosolwg a diweddariad o'r prosiectau. Yn gryno, mae tri phrosiect wedi'u

cymeradwyo ac yn cael eu cyflawni, mae tri phrosiect yn aros am gymeradwyaeth weinidogol, mae un prosiect wedi'i gymeradwyo'n rhanbarthol ac yn aros i gael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan weinidogion ac mae dau brosiect yn cael eu datblygu.

Darparwyd amlinelliad i'r aelodau o'r holl brosiectau yn y Fargen Ddinesig a lle ceir buddsoddiad. Dywedwyd wrth yr aelodau fod £241m o'r Fargen Ddinesig, ond ar hyn o bryd mae £4.3m heb ei ddyrannu o hyd. Gall hyn newid yn ôl angen yr achos busnes cyffredinol.

Ar hyn o bryd amcangyfrifir mai cyfanswm y buddsoddiad yw £1.157 biliwn. Mae hyn o fewn 10% o'r buddsoddiad gwreiddiol a amcangyfrifwyd yn 2017. Mae gwerth ychwanegol gros a swyddi wedi cynyddu ar yr amcangyfrifon cyfredol o'r rhagamcaniad gwreiddiol.

Holodd yr aelodau pryd y mae ffigurau pendant yn debygol o gael eu cyflwyno, o ran gwerth ychwanegol gros a swyddi a grëwyd. Dywedwyd y byddai adrodd ar y pethau y gellir eu cyflawni go iawn yn ffocws allweddol wrth symud ymlaen, ac mae'r templedi a'r mecanwaith ar gyfer adrodd amdanynt yn cael eu drafftio ar hyn o bryd. Byddai'n ffocws allweddol i'r CSRhP wrth ddarparu adroddiadau chwarterol yn y dyfodol. Bydd yr aelodau'n derbyn y ffigurau yn yr adroddiad chwarterol nesaf a byddant hefyd yn cael eu cynnwys yn yr achos busnes.

Dywedodd yr aelodau, yn ogystal â gwybod faint o swyddi a grëwyd, y byddai aelodau hefyd yn hoffi gwybod pa fath o swyddi sy'n cael eu creu. At hynny, byddai angen gwybodaeth am gontractau a gynhelir h.y. a yw cwmnïau lleol yn cael y cyfleoedd angenrheidiol i gymryd rhan yn y datblygiadau.

Bydd gan bob un o'r naw prosiect ei gynllun busnes ei hun a bydd monitro fforddiadwyedd yn cael ei gynnal ar gyfer pob prosiect.

Rhoddwyd rhywfaint o wybodaeth i'r aelodau am systemau adrodd am lywodraethu a sicrwydd sydd ar waith ar hyn o bryd. Mae proses monitro a gwerthuso yn cael ei datblygu. Mae hyn yn cynnwys Adroddiad Blynyddol. Cafwyd amryw o Adolygiadau Gateway hefyd lle mae achosion busnes yn cael eu herio gan dimau allanol. Erbyn hyn, mae gan y Tîm CSRhP wyth aelod o staff ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus i sicrhau bod trefniadau ar waith fel y bo'n briodol.

Trafododd y CSRhP y Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP) a'r Gofrestr Risg. Ar hyn o bryd mae dwy risg goch wedi'u nodi. Darparwyd manylion ynglŷn â sut mae'r risgiau hyn yn cael eu lliniaru. Mae'r asesiad risg COVID-19 yn parhau i fod yn gymharol sefydlog ers ei gyflwyno diwethaf gerbron y pwyllgor.

Holodd yr aelodau am drefniadau caffael a mynegon nhw eu pryder y dylid talu busnesau lleol fel y bo'n briodol heb unrhyw oedi diangen. At hynny, dylid monitro hyn. Cadarnhawyd y gellir ychwanegu hyn at gofrestr risg pob prosiect a dylid rhoi gwybod am liniaru'r risg drwy'r broses hon. Yna gall y CSRhP fonitro hyn.

Rhoddwyd diweddariad byr am bob prosiect i'r aelodau.

Mynegwyd pryder ynglŷn â'r Prosiect Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer. Nodwyd bod y gofrestr risg yn portreadu'r holl risgiau melyn, ac eto nid yw'r achos busnes wedi cael unrhyw gymeradwyaeth ffurfiol o hyd. Roedd yr aelodau am gael sicrwydd pendant y gellir ei gyflawni. Cadarnhaodd y CSRhP fod yr achos busnes ar gyfer y prosiect wedi bod yn destun adolygiad Gateway a'i fod yn aros am gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar hyn o bryd.

Holodd yr aelodau pam nad oedd Sgiliau a Doniau wedi'u datblygu fel blaenoriaeth pan nodwyd yn flaenorol ei bod yn bwysig creu a datblygu sgiliau ar draws y rhanbarth i helpu i gyflawni gofynion y prosiectau eraill. Roedd ymgynghorwyr allanol wedi ymgysylltu'n ddiweddar ag arweinwyr prosiectau i benderfynu pa sgiliau sydd eu hangen ar gyfer pob prosiect. Cadarnhaodd y CSRhP eu bod ar hyn o bryd yn cyfrannu adnoddau i'r prosiect i'w gyflymu. Mae'r CSRhP yn amcangyfrif y bydd y broses gymeradwyo ranbarthol yn gallu dechrau ar y prosiect yn ystod mis Mai 2021.

8. BLAENRAGLEN WAITH

Penderfynwyd:Ystyried ac adolygu prosiectau rhanbarthol, un ym mhob cyfarfod:

1. Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer
2. Sgiliau a Doniau
3. Isadeiledd Digidol

Penderfynwyd: Ymgorffori gwerth ychwanegol gros/pethau y gellir eu cyflawni (terminoleg i'w chytuno gyda CSRhP) fel rhan o'r gwaith monitro rhaglenni chwarterol

9. EITEMAU BRYS

Dim.

CADEIRYDD